## CCJS11 Comisiwn y Senedd

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Busnes** | **Business Committee**

**Rhannu swydd cadeirydd Pwyllgor** | **Committee chair job sharing**

Ymateb gan: Comisiwn y Senedd | Evidence from: Senedd Commission

13 Tachwedd 2024

Annwyl Bwyllgor Busnes,

**Ymgynghoriad ar rannu swydd cadeirydd pwyllgor**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref ynghylch rhannu swydd cadeirydd pwyllgor ac effaith bosibl y newidiadau arfaethedig, yn enwedig o ran adnoddau'r Comisiwn.

Mae'n anodd rhoi darlun cynhwysfawr o effaith y newidiadau arfaethedig. Mae hwn yn gynnig newydd, ac nid yw'n glir ar hyn o bryd beth allai'r effaith fod o ran adnoddau.

Fodd bynnag, mae gennym brofiad diweddar o gefnogi cyd-gadeiryddion. Penodwyd cyd-gadeiryddion i gadeirio Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru. Er bod y model cyd-gadeirio yn wahanol i'r model rhannu swydd gan fod cyd-gadeiryddion yn cydweithio i gyflawni pob elfen o gyfrifoldebau'r cadeirydd, mae'r model yn rhoi rhywfaint o brofiad o lefel y cymorth sydd ei angen gan swyddogion y Comisiwn.

Er y gallai trefniant rhannu swydd olygu y byddai angen cymorth ychwanegol gan y tîm clercio ar faterion ymarferol i ddechrau, efallai y bydd modd rheoli'r rhain drwy gytundeb rhannu swydd rhwng y cadeiryddion sy'n rhannu swydd, yn debyg i'r **protocol cyd-gadeirio**. Yn y pen draw byddai angen i ddau Aelod fyddai'n dymuno sefyll gyda'i gilydd ar gyfer un rôl gadeirydd drwy drefniant rhannu swydd wneud hynny ar y sail y byddent yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod y trefniant yn gweithio ac na fyddai angen i glercod ddyblygu gwaith na chymryd rhan mewn unrhyw broses gyfryngu rhwng y rhai sy'n rhannu swydd.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth o weithio gyda'r model cyd-gadeirio a manylion y model rhannu swydd a nodir yn eich llythyr, ein hasesiad yw na ragwelir y byddai angen

adnoddau ychwanegol sylweddol i gefnogi cadeiryddion sy’n cael eu hethol ar sail trefniant rhannu swydd.

Cofion gorau,

Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd